Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

Technegydd Hydrantau a Diffoddyddion

Gradd 7
CYFLOG: O £27,803 - £28,770 y flwyddyn
Swydd Barhaol
37 awr yr wythnos
Rhif y Swydd: 502234

Rydym yn chwilio am unigolyn i ymuno â'n Tîm Hydrantau a Diffoddyddion ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX.

Dan gyfarwyddyd y Rheolwr Tîm Hydrantau a Diffoddyddion bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gyfrifol am:

- Gynnal a chadw ac ail-lenwi diffoddyddion tân o fewn y sefydliad a darparu diffoddyddion tân i Orsafoedd Tân pan fydd angen ar fyr rybudd.
- Archwilio a chynnal a chadw hydrantau tân wedi'u mabwysiadu o fewn yr ardal gwasanaeth fel rhan o raglen archwilio dreiglol.

Nodiadau:

- Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon.
- Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Bydd rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol trwy ddefnyddio cludiant y Gwasanaeth. Cynhelir gwiriad Trwydded Yrru.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn amodol ar wiriad cofnod troseddol sylfaenol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd gofyn iddo/iddi ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn gwneir penodiad.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau priodol yn unol ag amlinelliad y Fanyleb Person. Sylwch fod hon yn broses hynod gystadleuol a dim ond y rhai sydd wedi dangos tystiolaeth lawn yn erbyn yr holl feini prawf hanfodol ar y fanyleb person fydd yn mynd ymlaen i'r Broses Ddethol. Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 12:00 ganol dydd, 15/11/2024.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein drwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu drwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi-diweddaraf/ Os oes angen fersiwn papur, anfonwch e-bost at: personel@decymru-tan.gov.uk

Dylai pob ymgeisydd mewnol sy'n gwneud cais wneud cais drwy ei borth, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith. Sylwch y bydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau drwy law'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd wrth ymgeisio.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Saesneg a Chymraeg ill dau ac rydym yn croesawu cyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.